OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 528 (Cy. 111)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Ebrill 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *5 Mai 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 303 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Yn unol ag adran 333(3E) o'r Ddeddf honno(**2**), gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2017 a deuant i rym ar 5 Mai 2017.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygiadau mewn perthynas â ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau tybiedig

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 10(7) mewnosoder—

> "(7A) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (7) at yr awdurdod perthnasol ar yr un pryd ag yr anfonir yr hysbysiad at yr apelydd.
>
> (7B) Rhaid i'r awdurdod perthnasol hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—
>
> (a) pan fydd yr apelydd wedi talu'r ffi yn unol â pharagraffau (6) a (7); neu

(**1**) 1990 p. 8. Amnewidiwyd adran 303 gan adran 199 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29) ac fe'i diwygiwyd gan adran 55 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) a pharagraffau 4(1) a 5 o Atodlen 7 iddi. Gwnaed diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. *Gweler* adran 336(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar gyfer ystyr "prescribed".

(**2**) Mewnosodwyd adran 333(3E) gan adran 55 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a pharagraff 3 o Atodlen 7 iddi.

(**3**) O.S. 2015/1522 (Cy. 179), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(b) os nad yw'r apelydd wedi talu'r ffi o fewn yr amser a bennir yn yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (7)."

**Darpariaethau trosiannol ac arbed**

**3.** Nid yw'r diwygiadau a wnaed gan reoliad 2 yn gymwys i gais am ganiatâd cynllunio y tybir iddo gael ei wneud, yn rhinwedd adran 177(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (rhoi neu addasu caniatâd cynllunio yn dilyn apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi)(**4**), mewn cysylltiad â hysbysiad gorfodi a ddyroddir cyn y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

*Jane Hutt*

5 Ebrill 2017 — Un o Weinidogion Cymru

(**4**) Diwygiwyd adran 177(5) gan adran 32 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) a pharagraffau 8 a 24(3) o Atodlen 7 iddi, gan adran 123(1) a (6) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20), a chan adran 44(1) a (3) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 mewn cysylltiad â ffioedd am geisiadau tybiedig ac yn ei gwneud yn ofynnol—

(a) i Weinidogion Cymru anfon copi o'r hysbysiad sy'n pennu'r amser ar gyfer talu'r ffi at yr awdurdod perthnasol ar yr un pryd ag yr anfonir yr hysbysiad at yr apelydd;

(b) i'r awdurdod perthnasol hysbysu Gweinidogion Cymru pan fydd y ffi wedi ei thalu neu os nad yw'r ffi wedi ei thalu yn yr amser penodedig.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n gymwys i'r Rheoliadau hyn ar gael gan Lywodraeth Cymru yn: Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn http://www.llyw.cymru .